## Dydd Mercher Lludw

## Rho heibio!

**Darllen Eseia 58:1–12; Mathew 6:1–6, 16–21**

Rho heibio!
Dyma'r adeg o'r flwyddyn ar gyfer defod 'ymprydio'.
Rhoi rhywbeth heibio dros y Grawys.
Gwneud ympryd – mae'n draddodiad.
Ond pam?
Rhown rywbeth heibio...
...i wella'n golwg,
...i fod yn fwy heini na'n cymydog,
...i deimlo'n well,
...fel y byddi di yn sylwi arnom?

Os taw er ein lles ein hunain y gwnawn yr aberthau dibwys hyn,
ac nid i ryngu dy fodd Di,
mwy buddiol fyddai i ni ymatal rhag ymprydio.

Ymroi!
Gwell fyddai i ni ymroi.
Ymroi i rywbeth newydd dros y Grawys.
Ond beth?
Ymroi i rywbeth a all fod o gymorth ...
...i ddatod rhwymau anghyfiawnder,
...i fwydo'r newynog,
...i ddilladu'r noeth,
...i groesawu'r anghenus.

Arglwydd, yr wyt ti yn ein gweld yn y dirgel.
Yr wyt yn gwybod pryd y mae ein defodau yn ddiystyr a gwag.
Cynorthwya ni i fod yn ddiffuant –
i fod yn onest o'th flaen di a'n hunain.
Pan fydd ein calonnau yn onest a glân,
yno hefyd y byddi Di –
ein Hadnewyddwr, ein Cynhaliwr a'n Harweinydd.

***Allan o Llawlyfr Gweddi 2004–2005***